



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

## **PROFFIL LLEOLIAD PROFIAD GWAITH**

**Adran:** Uned Polisi Iaith Gymraeg

**Lleoliad:** Canolfan Ddinesig, Merthyr Tudful

### **Gwybodaeth am yr Adran:**

Mae'r Uned Polisi Iaith Gymraeg yn cynnwys Rheolwr yr Iaith Gymraeg a'r Swyddog Polisi Iaith Gymraeg sy'n ffurfio rhan o Adran Gwasanaethau Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Uned Polisi yn darparu gwasanaeth sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, gan gynnwys y gwasanaethau canlynol:

- Sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.
- Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Sector Addysg.
- Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gymuned.
- Hyrwyddo Strategaeth Y Gymraeg Mewn Gofal Iechyd (Mwy na Geiriau).

### **Crynodeb o'r Rhaglen Profiad Gwaith a'r Tasgau Arfaethedig:**

- Cefnogi Rhaglen Waith yr Uned Polisi Iaith Gymraeg gan gynnwys y canlynol:
  - Trefnu diwrnod Shwmae (Digwyddiad cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg ledled Cymru) ar 15 Hydref bob blwyddyn.
  - Trefnu sesiynau coffi a chlonc gyda dysgwyr Cymraeg y Cyngor.
  - Cefnogi darparu a gweithredu cyfleoedd dysgu'r Gymraeg i staff y Cyngor.

### **Meini Prawf Hanfodol:**

- Caiff y profiad gwaith hwn ei anelu at ymgeiswyr Safon A, gradd neu gyfwerth ac uwch ar gyfer:
  - Myfyrwyr sy'n astudio Busnes, Iaith, Cynllunio neu gymwysterau perthnasol.
  - Unigolion a hoffai gael profiad o weithio mewn amgylchedd Cymraeg ei iaith.
- Siaradwr Cymraeg rhugl.
- Sgiliau da o ran TG.